

Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod	7 Rhagfyr 2021
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Hugh Evans – Arweinydd/y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Eiddo
Awdur yr adroddiad	Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio / Gary Williams, Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd
Teitl	Cynigion i Aelodau fabwysiadu Ffyrdd Newydd o Weithio.

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynigion sy'n deillio o waith Grŵp Tasg a Gorffen yr Aelodau ar Ffyrdd Newydd o Weithio, y bwriedir eu gweithredu ar gyfer y Cyngor newydd yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022. Ymdrinnir â dwy elfen yn yr adroddiad hwn: Yn gyntaf, sut ddylai Aelodau gynnal cyfarfodydd ac yn ail, pa gyfarpar TGCh sydd arnynt ei angen i wneud hynny.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gofyn i'r Cyngor ystyried y cynigion sy'n deillio o waith Grŵp Tasg a Gorffen yr Aelodau ar Ffyrdd Newydd o Weithio ynglŷn â'r modd y dylid cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol a pha gyfarpar TGCh y dylid ei ddarparu i'r Aelodau i'w cynorthwyo â hynny.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn cytuno, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ynglŷn â'r dull mwyaf priodol o gynnal gwahanol fathau o gyfarfodydd ar sail y cynigion a gyflwynir yn yr adroddiad a gyflwynwyd i Grŵp Tasg a Gorffen yr Aelodau ar Ffyrdd Newydd o Weithio ac sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn Atodiad 1.

3.2. Bod y Cyngor yn cytuno, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynglŷn â pha gyfarpar TGCh y dylid ei ddarparu i Aelodau'r Cyngor newydd fel y nodir yn Adran 2 o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Grŵp ac sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn Atodiad 1.

3.3. Bod y Cyngor yn mabwysiadu, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Protocol ar gyfer cynnal cyfarfodydd Hybrid ar yr un telerau i bob pwrpas â'r rhai a nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 19 Hydref 2021 cyfarfu Grŵp Tasg a Gorffen yr Aelodau ar Ffyrdd Newydd o Weithio er mwyn trafod adroddiad ynglŷn â chynigion ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Cyngor newydd a'r cyfarpar TGCh y dylid ei ddarparu i'r Aelodau i'w cynorthwyo yn eu gwaith.

4.2. Lluniwyd y cynigion hyn mewn ymateb i'r dyhead i adael i fwy o bobl weithio ar-lein a thrwy drefniadau hybrid a fynegwyd yn un o gyfarfodydd blaenorol y grŵp.

4.3. Cyflwynwyd adroddiad i'r Grŵp, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn Atodiad 1, sy'n rhoi cefndir manwl i'r mater.

4.4. Cymeradwyodd y Grŵp y cynigion a nodir yn Atodiad 1 ynglŷn â'r ffyrdd y dylid cynnal cyfarfodydd a'r cyfarpar y dylid ei ddarparu i Aelodau.

4.5. Mae Protocol wedi'i ddrafftio i amlinellu'r materion gweithdrefnol ac ymddygiad yn ymwneud â chyfarfodydd hybrid. Mae copi o'r Protocol hwnnw wedi ei atodi fel Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

4.6. Yn y cyfarfod hwn ar 5 Tachwedd 2021 ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y cynigion a gynhwysir yn Atodiad 1 a phenderfynu argymhell y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r cynigion yn nhermau trefniadau'r cyfarfod a'r cyfarpar TGCh y dylid ei ddarparu i aelodau ar ôl yr etholiadau ym mis Mai.

4.7. Ystyriodd y Gwasanaethau Democrataidd gynnwys y Protocol drafft hefyd ac awgrymu mân newidiadau sydd wedi'u hymgorffori yn Atodiad 2. Awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r Protocol, fel y diwygiwyd, gael ei fabwysiadu gan y Cyngor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Gallai'r penderfyniad gael effaith gadarnhaol ar y flaenoriaeth sydd a wnelo â'r amgylchedd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Gan fod gliniaduron yr aelodau'n gymharol newydd mae'n annhebygol y bydd llawer o gostau'n deillio o ddarparu'r rhain. Darperir ffonau symudol drwy'r ddarpariaeth dan contract ffonau symudol presennol y Cyngor, ac mae hynny'n debygol o fod yn niwtral o ran cost.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes asesiad o'r effaith ar les wedi'i baratoi o ran yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gyda Chraffu. Datblygodd y Grŵp Tasg a Gorffen y cynigion a'u cymeradwyo ar gyfer ystyriaeth drwy'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Ystyriodd y Pwyllgor y cynigion yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2021 a phenderfynu eu hargymell i'r Cyngor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodir yn adran 6, rhagwelir y bydd modd gweithredu'r newidiadau heb newid yn y cyllidebau presennol, ond bydd angen cadw golwg fanwl ar hynny yn y misoedd i ddod.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Ceir risg y gellid colli manteision y datblygiadau diweddar mewn technoleg ac arferion cyfarfodydd ar-lein heb fod yno ddull strwythuredig o gynnal cyfarfodydd ar-lein a rhai hybrid, a heb ddarparu cyfarpar digonol i hwyluso'r fath gyfarfodydd.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

11.2. Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021